Asesiad Effaith

Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2025-2030

Powys

Mae Asesiadau Effaith (AE) yn broses o asesu sut y gall ein cynigion a'n penderfyniadau effeithio ar dri gwahanol fath o bobl a chymunedau, a datblygu cynigion yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol, ac mae'n sicrhau bod y Cyngor yn ystyried deddfwriaeth allweddol, megis Cydraddoldeb, Safonau'r Gymraeg, Cenedlaethau'r Dyfodol, Dyletswydd Gymdeithasol-economaidd a Risg, wrth lunio cynigion.

Hefyd bydd yn helpu'r Cyngor i wneud y penderfyniadau posibl gorau er budd trigolion Powys.

Cyn cychwyn, dylech ddarllen y canllawiau sydd ar gael yma yn Gymraeg neu yma yn Saesneg.

1. Gwybodaeth am y Cynnig

* Gofynnol

Enw'r Awdur	Sion Rowley
Pennaeth Gwasanaeth	Catherine James, Pennaeth Trawsnewid a Gwasanaethau Democrataidd
Aelod Portffolio	Y Cynghorydd Sandra Davies
Teitl y Cynnig	Strategaeth Hybu’r Gymraeg 5 mlynedd 2025-2030
Disgrifiad o'r Cynnig*	I fabwysiadu Strategaeth arfaethedig Hybu'r Gymraeg ar gyfer 2025 i 2030 a fydd yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn hwyluso ei defnydd yn ehangach ledled Powys. Mae'r strategaeth hon yn ofyniad cyfreithiol o dan Safonau'r Gymraeg. Wrth fabwysiadu'r strategaeth bydd mwy o blant a phobl ifanc yn siarad Cymraeg yn hyderus. Hefyd, bydd y gwasanaethau rydym yn eu darparu yn haws i'w defnyddio yn Gymraeg ac yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn annog busnesau, y sector gwirfoddol a sefydliadau cymunedol ym Mhowys i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwasanaethau i gwsmeriaid, fel bod yr iaith yn rhan ffyniannus o fywyd cymunedol. Byddwn hefyd yn cynyddu canran ein staff sy'n gallu darparu gwasanaeth yn Gymraeg.

2. Arbedion a Gofynion Ymgynghori

* Gofynnol

Proffil arbedion

2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029+	Cyfanswm arbedion
Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Rhagor o wybodaeth

Mae mabwysiadu Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn ofyniad cyfreithiol o dan Safonau'r Gymraeg ("y Safonau" o hyn ymlaen). Lluniwyd y strategaeth mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg ym Mhowys.

Gofynion ymgynghori

A oes angen ymgynghori? *	Nac oes
Dyddiad gorffen ymgynghoriad undeb	Cliciwch neu tapiwch i nodi dyddiad.
Dyddiad gorffen ymgynghoriad staff	Cliciwch neu tapiwch i nodi dyddiad
Dyddiad gorffen ymgynghoriad cyhoeddus	Cliciwch neu tapiwch i nodi dyddiad

Cynllun ymgynghori (neu gyfiawnhad lle nad oes rhaid ymgynghori)

Mae mabwysiadu Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn ofyniad cyfreithiol o dan y safonau. Fe'i crëwyd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg ym Mhowys.

3. 3. Effaith ar feysydd gwasanaeth eraill, ardaloedd daearyddol a diogelu data ℹ

* Gofynnol

3a. 3a. Effaith ar feysydd gwasanaeth eraill *

☒ Gwasanaethau Digidol

☒ Gwasanaethau Plant

☒ Gwasanaethau Oedolion

☒ Deallusrwydd Busnes a Llywodraethiant

☒ Pobl

☒ Cyllid

☒ Cyfreithiol a Monitro

☒ Yr Economi a Hinsawdd

☒ Gwasanaethau Tai

☒ Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Ailgylchu

☒ Cynllunio a Gwasanaethau Rheoleiddio

☒ Trawsnewid Addysg

☒ Gwella Ysgolion a Dysgu

☒ Lles Cymunedol

☒ Partneriaid Strategol, e.e. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Os dewiswyd 'Partneriaid Strategol", noder y partneriaid strategol isod os gwelwch yn dda

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

3b. Effaith ar leoliadau daearyddol*

☒ Powys gyfan

☐ Llanfyllin

☐ Y Trallwng a Threfaldwyn

☐ Machynlleth

☐ Llanfair Caereinion

☐ Y Drenewydd

☐ Llanidloes

☐ Llandrindod a Rhaeadr Gwy

☐ Tref-y-clawdd a Llanandras

☐ Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd

☐ Y Gelli Gandryll a Thalgarth

☐ Aberhonddu

☐ Crughywel

☐ Ystradgynlais



3c. Asesiad effaith diogelu data ℹ

A fydd y cynnig yn golygu prosesu manylion personol unigolion?*	Na fydd
Ai Cyngor Sir Powys yw rheolwr y data? *	Nage

Os taw 'ie' oedd eich ateb i'r naill gwestiwn neu'r llall uchod, gofalwch eich bod wedi cwblhau o leiaf y cwestiynau sgrinio ar yr asesiad effaith diogelu data.

Am gyngor pellach, cysylltwch â'r Tîm Cydymffurfiaeth Gwybodaeth.

Rhagor o wybodaeth
Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun

4. Effaith ar y nodau llesiant yn cynnwys yr iaith Gymraeg a chydraddoldeb

* Gofynnol

4a. Cymru lewyrchus

Effaith *	Byddwn yn annog trigolion Powys sydd â sgiliau siarad Cymraeg i wneud cais am swyddi gyda ni lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu ddymunol. Bydd y strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar gynnal a chynyddu gweithlu medrus sy'n siarad Cymraeg mewn cymunedau ledled Powys. Bydd y strategaeth hefyd yn cefnogi ein gweithlu i ddefnyddio arloesedd, technoleg ac atebion digidol i ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid dwyieithog o safon uchel sy'n cydymffurfio â'r Safonau.
Cyfradd effaith *	Da

Mesurau Lliniaru	Ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn sgìl dymunol, byddwn yn cefnogi ymgeiswyr i ddatblygu eu gallu Gymraeg fel y gallant ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd gwaith ymarferol. Lle mae'r Gymraeg yn fedr hanfodol, byddwn yn nodi pa fedrau sydd eu hangen arnom ac ar ba lefel. Er enghraifft, efallai na fydd angen darllen nac ysgrifennu yn Gymraeg. Pe na baem yn nodi hyn, gallai peri i'r rheiny sydd â Chymraeg llafar da ond sgiliau darllen ac ysgrifennu gwan i beidio ymgeisio. Gall lefel ganolradd fod yn ddigonol ar gyfer rhai swyddi Cymraeg hanfodol. Nid yw gallu darparu gwasanaeth yn Gymraeg bob amser yn golygu bod angen i'r ymgeisydd fod yn rhugl. Lle mae darllen ac ysgrifennu'n hanfodol i ofynion swydd byddwn yn cefnogi ymgeiswyr addas i ddatblygu eu medrau. Byddwn yn cefnogi staff newydd sydd wedi derbyn addysg Gymraeg i addasu eu sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle. Byddwn yn cynnig cymorth iaith ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'u darparwyr rhanbarthol. Drwy'r camau uchod byddwn yn darparu gweithlu fydd â sgiliau Cymraeg cryfach yn y dyfodol.
Effaith ar ôl Lliniaru	Da

4b. Cymru gydnerth

Effaith *	Dim
Cyfradd effaith *	Dewiswch eitem
Mesurau Lliniaru	Ddim yn berthnasol
Effaith ar ôl Lliniaru	Dewiswch eitem

4c. Cymru iachach

Effaith *	Bydd y strategaeth yn cefnogi iechyd meddwl ac emosiynol gan y bydd trigolion sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael mynediad hawdd at wasanaethau'r cyngor yn Gymraeg. Mae rhai trigolion yn teimlo'n fwy cyfforddus a hyderus yn ceisio cymorth yn Gymraeg os mai dyna yw eu hiaith gyntaf. Mae hyn yn arbennig o wir os ydynt yn agored i niwed, neu'n trafod materion emosiynol neu bersonol. Os na allant gyfleu eu hanghenion yn gywir yn Saesneg, ni fydd defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg yn cael y cymorth sydd ei eisiau arnynt. Gall hyn arwain at gamsyniad a chamddiagnosis. Bydd hyn yn ei dro'n effeithio ar eu hiechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol. Mae gallu cyfathrebu'n hawdd yn Gymraeg yn fater o angen clinigol i rai o'n trigolion. Bydd y strategaeth yn rhoi mwy o hyder i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio ein gwasanaethau Cymraeg a hyrwyddo mwy o gyfleoedd cymdeithasol yn Gymraeg a chysylltu siaradwyr drwy dechnoleg. Bydd hyn yn lleihau ynysigrwydd cymdeithasol siaradwyr Cymraeg sy'n byw mewn cymunedau lle na chlywir yr iaith yn aml. Gallant deimlo'n rhwystredig na allant gymdeithasu nac ymdrin ag eraill yn eu hiaith ddewisol.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Byddwn yn cadw at strategaeth ddiwygiedig Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn gofal cymdeithasol. Byddwn hefyd yn cynyddu medrau Cymraeg ein gweithlu er mwyn adlewyrchu canran y siaradwyr yn y sir yn well, sef 16%. Bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu mwy o wasanaethau'n effeithiol yn Gymraeg.
Effaith ar ôl Lliniaru	Da

4d. Cymru o gymunedau cydlynus

Effaith *	Bydd y strategaeth yn annog sefydliadau cymunedol i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau. Golyga hyn y byddant yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu'n well. Byddant yn fwy croesawus i siaradwyr Cymraeg a fydd yn gallu clywed a defnyddio'r iaith mewn cyd-destunau newydd. Pan fydd plant a phobl ifanc yn gweld ac yn clywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio y tu allan i'r ysgol, bydd yn cynyddu eu dealltwriaeth o werth a pherthnasedd yr iaith ar gyfer gwaith a bywyd. Bydd y strategaeth yn creu cymunedau lle gellir defnyddio a chlywed y Gymraeg fel y drefn arferol.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Byddwn yn annog busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhagweithiol gyda chwsmeriaid. Po fwyaf o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio, ei chlywed a'i gweld yn y gymuned, po fwyaf y bydd yn ffynnu.
Effaith ar ôl Lliniaru	Da

4e. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Effaith *	Drwy gynnig gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg yn rhagweithiol, bydd siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwy cyfforddus a hyderus wrth ddefnyddio'r iaith. Byddwn yn grymuso trigolion ac ymwelwyr i ddeall bod ganddynt hawl gyfreithiol i geisio gwasanaethau yn y Gymraeg os byddant yn dymuno. Bydd hyn yn sicrhau bod trigolion o bob oed yn gallu cyfleu eu hanghenion yn Gymraeg a fydd yn eu galluogi i fyw mewn urddas.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Bydd darparu gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg yn rhagweithiol yn sicrhau bod trigolion, staff Cyngor Sir Powys ac ymwelwyr yn cael eu croesawu a'u hannog i ddefnyddio'r iaith wrth ddefnyddio gwasanaethau yn y sir.

Effaith ar ôl Lliniaru	Da

4f. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Defnyddio'r Gymraeg

Effaith *	Nod y cynnig hwn yw hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso ei defnydd yn ehangach mewn cymunedau ledled Powys. Byddwn yn annog trigolion a'n staff i gofrestru ar gyrsiau a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'u darparwyr rhanbarthol. Byddwn yn rhoi cyfleoedd anffurfiol i'n staff ymarfer eu Cymraeg yn ystod oriau gwaith drwy grwpiau sgwrsio, a gynhelir wyneb yn wyneb yn Neuadd y Sir a thrwy Teams. Byddwn hefyd yn datblygu canllawiau i staff fydd yn cynnwys ymadroddion Cymraeg defnyddiol ar gyfer sefyllfaoedd gwaith darparu gwasanaethau. Bydd y deunydd hwn yn cynnwys clipiau sain i gynorthwyo ynganu. Bydd y cynnig yn cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau cymdeithasol wrth i ni annog busnesau, y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol i ddefnyddio mwy o Gymraeg. Drwy gryfhau ein gweithdrefnau ar gyfer cydymffurfio â gofynion darparu gwasanaethau'r Safonau, byddwn yn cynyddu cyfleoedd i bobl gyrchu gwasanaethau'n hawdd yn Gymraeg. Bydd cydymffurfio â'r Safonau'n sicrhau na fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gynnig gwasanaethau i'r cyhoedd. Bydd hybu gwasanaeth cyfieithu am ddim Llywodraeth Cymru, Helo Blod, ymysg grwpiau a chlybiau cymunedol yn cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau cymdeithasol. Fel rhan o'r strategaeth byddwn yn cydweithio â Mentrau Iaith y sir i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc gymdeithasu yn Gymraeg y tu allan i'r ysgol.
Cyfradd effaith *	Da

Mesurau Lliniaru	Byddwn yn nodi'r hyn y bydd rhaid i ddarparwyr trydydd parti ei wneud o ran y Gymraeg pan fyddant yn cynnig gwasanaeth ar ein rhan. Byddwn yn dyfynnu'r safonau perthnasol mewn manylebau gwasanaeth. Bydd Swyddog y Gymraeg yn cyfarfod â Phenaethiaid Gwasanaeth i arolygu cydymffurfiaeth â gofynion darparu gwasanaethau'r Safonau. Bydd hyn yn ein galluogi i nodi arfer da o ran cydymffurfio a'i rannu ymysg meysydd gwasanaeth eraill. Trwy hyn byddwn yn gallu gweld a oes problemau cydymffurfio yn gynnar a chymryd camau i'w datrys. Trwy gydweithio â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a PAVO, byddwn yn creu ymadrodd yr wythnos i staff ar gyfer sefyllfaoedd gwaith. Er enghraifft, "Byddaf yn eich trosglwyddo nawr," i'w ddefnyddio ar y ffôn. Byddwn yn cynnwys clipiau sain atodol a'u rhannu ymysg staff drwy gyfathrebu mewnol. Bydd hwn hefyd yn cynnwys darparwyr trydydd parti sy'n delio â'r cyhoedd ar ein rhan. Trwy hyn byddwn yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
Effaith ar ôl Lliniaru	Da

Hybu'r Gymraeg

Effaith *	Un cam gweithredu yn y cynnig hwn yw bod yn rhagweithiol wrth gynnig gwasanaeth Cymraeg i gwsmeriaid. Bydd staff yn gallu dangos eu bod yn siarad neu'n dysgu Cymraeg drwy gefndiroedd Teams corfforaethol a thrwy wisgo bathodynnau Iaith Gwaith. Mae'r cynnig yn anelu i sicrhau y gall trigolion dderbyn gwasanaeth Cymraeg wrth ffonio ein prif linell gwasanaethau i gwsmeriaid a'n llinellau cymorth.
Cyfradd effaith *	Da

Mesurau Lliniaru	Drwy gynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth am y Gymraeg i reolwyr, byddant yn deall pwysigrwydd peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Byddant hefyd yn deall pam bod angen achub y blaen wrth gynnig gwasanaeth yn Gymraeg. Bydd staff yn deall y manteision dynol o fedru cael gwasanaethau hwylus ac o safon yn Gymraeg.
Effaith ar ôl Lliniaru	Da

Chwaraeon, Y Celfyddydau, a Hamdden ℹ

Effaith *	Drwy'r cynnig hwn, byddwn yn sefydlu polisi i sicrhau bod yr holl weithgareddau datblygu ieuenctid a chwaraeon a ddarperir mewn ysgolion Cymraeg yn cael eu darparu yn Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau trochi ieithyddol llawn i ddysgwyr. Bydd hefyd yn sicrhau mynediad cyfartal i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun
Effaith ar ôl Lliniaru	Dewiswch eitem

4g. Cymru sy'n fwy cyfartal

Oedran

Effaith *	Bydd y cynnig hwn yn hyrwyddo cydraddoldeb drwy sicrhau nad ydym yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ac wrth arolygu neu lunio polisïau. Mae tystiolaeth bod unigolion yn mynd yn ôl i'w hiaith gyntaf fel eu hunig ffordd o gyfathrebu mewn rhai achosion o ddementia. Bydd cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer dioddefwyr dementia sy'n siarad Cymraeg yn gwella eu lles meddyliol a chlinigol.
	Da
Mesurau Lliniaru	Ddim yn berthnasol
Effaith ar ôl Lliniaru	Anhysbys

Anabledd

Effaith *	Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau sy'n cynnig cymhorthion hygyrchedd ar ein rhan yn cynnig gwasanaeth hwylus yn Gymraeg. Er enghraifft, pan fydd defnyddwyr gwasanaeth yn dewis a cheisio cymhorthion symudedd ar y we.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Bydd ein manylebau contract gyda darparwyr symudedd trydydd parti'n nodi'r union safonau rydym yn disgwyl iddynt eu dilyn. Byddwn yn monitro eu cydymffurfedd a fydd yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Effaith ar ôl Lliniaru	Da

Ailbenni rhywedd

Effaith *	Dim effaith
Cyfradd effaith *	Dewiswch eitem
Mesurau Lliniaru	Ddim yn berthnasol
Effaith ar ôl Lliniaru	Dewiswch eitem

Priodasau neu bartneriaeth sifil

Effaith *	Bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cofrestru a chynnal eu priodas neu eu partneriaeth sifil yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Ddim yn berthnasol
Effaith ar ôl Lliniaru	Dewiswch eitem

Hil

Effaith *	Dim
Cyfradd effaith *	Dewiswch eitem
Mesurau Lliniaru	Ddim yn berthnasol
Effaith ar ôl Lliniaru	Dewiswch eitem

Crefydd neu gred

Effaith *	Dim
Cyfradd effaith *	Dewiswch eitem
Mesurau Lliniaru	Ddim yn berthnasol
Effaith ar ôl Lliniaru	Dewiswch eitem

Rhyw

Effaith *	Dim
Cyfradd effaith *	Dewiswch eitem
Mesurau Lliniaru	Ddim yn berthnasol
Effaith ar ôl Lliniaru	Dewiswch eitem

Cyfeiriadedd rhywiol

Effaith *	Dim
Cyfradd effaith *	Dewiswch eitem
Mesurau Lliniaru	Ddim yn berthnasol
Effaith ar ôl Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Effaith *	Drwy'r cynnig, byddwn yn annog Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i gynnig gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol mewn apwyntiadau cyn enedigol ac ôl-enedigol. Ar gyfer gwasanaethau Cyngor Sir Powys, pan fydd rhieni newydd yn dymuno cofrestru enw eu plentyn, byddant yn gallu gwneud hynny'n hawdd yn y Gymraeg. Bydd ffurflenni a gweinyddiaeth berthnasol ar gael yn Gymraeg.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Ddim yn berthnasol
Effaith ar ôl Lliniaru	Dewiswch eitem

Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Effaith *	Drwy'r cynnig hwn, byddwn yn annog siaradwyr Cymraeg a allai fod o dan anfantais economaidd-gymdeithasol i ymgeisio am swyddi gyda ni. Drwy lwybrau gyrfa, byddem o bosibl yn cynyddu eu hincwm.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Byddwn yn hysbysebu swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol yn Saesneg yn ogystal â Chymraeg. Fe wnawn hyn i osgoi atal ymgeiswyr sydd â Cymraeg llafar da, ond oherwydd amddifadedd mae eu sgiliau ysgrifennu a darllen Cymraeg yn wan. Gyda rhai swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, nid oes eisiau medru darllen nac ysgrifennu. Serch hyn byddwn yn cefnogi'r staff hyn i ddatblygu eu gallu darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg ar ôl penodi.
Effaith ar ôl Lliniaru	Da

4h. Tystiolaeth

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) Cyngor Sir Powys ar gyfer canran y plant ym Mhowys sy'n derbyn addysg Gymraeg.

Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o siaradwyr Cymraeg.

Data Cyngor Sir Powys ar ganran ein staff sy'n gallu cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg (ar Lefel 3, 4 a 5).

Canran ein staff sy'n cwblhau cyrsiau dysgu Cymraeg - data gan ddarparwyr rhanbarthol Cymraeg y Ganolfan Dysgu Genedlaethol.

Mwy na Geiriau, Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Arolygon boddhad cwsmeriaid y byddwn yn eu cynnal

Ymarferion siopwr cudd a gynhelir gan PAVO a Swyddog y Gymraeg CSP

Ein harolwg o'n staff sy'n siarad Cymraeg

5. Effaith ar egwyddorion arweiniol allweddol a'r gweithlu ℹ

* Gofynnol

5a. Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy

Hirdymor ℹ

Effaith *	Er ei fod yn gynllun pum mlynedd, ein nod yn y strategaeth hon a'r rhai fydd yn ei dilyn yw cyfrannu tuag at darged tymor hir Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rhaid i ni felly gael targed hirach i sicrhau bod traean o boblogaeth Powys yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2050. Nod y strategaeth hon yw cynnal canran y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys, i fod yn 16.2% erbyn 2030. Nod y strategaeth ddilynol ar gyfer 2031-2025 fydd adfer nifer y siaradwyr Cymraeg i 20%.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Byddwn yn ymgysylltu â'r Gwasanaeth Ysgolion i ofyn faint o blant sy'n siarad Cymraeg pan maent yn dechrau'r ysgol gynradd. Byddwn yn monitro i weld a yw'r disgyblion hyn yn parhau ag addysg Gymraeg drwy gydol eu bywyd ysgol, er enghraifft ym Mlwyddyn 7 ar ôl dechrau yn yr ysgol uwchradd, ac wrth ddechrau Cyfnod Allweddol 4 (Blynyddoedd 10 ac 11). Os bydd disgyblion yn trosglwyddo i ddarpariaeth Saesneg, bydd rhaid inni ganfod pam. Trwy hyn byddwn yn gwybod a yw mwy o ddisgyblion yn cael eu haddysgu yn Gymraeg ac felly'n debygol o ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.
Effaith ar ôl Lliniaru	Da

Cydweithredu

Effaith *	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid fel Comisiynydd y Gymraeg, Mentrau Iaith, yr Urdd, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, PAVO, a darparwyr rhanbarthol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gyflawni'r strategaeth hon. Ein nod yw annog eraill i ddarparu mwy o weithgareddau a chyfleoedd yn Gymraeg drwy hyrwyddo'r manteision o wneud hynny. Enghraifft yw tynnu sylw at fanteision ymgysylltu â chwsmeriaid i fusnesau lleol o gynnig gwasanaeth sylfaenol yn y Gymraeg hyd yn oed. Drwy'r strategaeth hon byddwn yn annog mwy o staff i gofrestru ar gyrsiau Cymraeg. Fodd bynnag, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n bennaf gyfrifol am gynyddu niferoedd dysgwyr ym Mhowys. Byddwn yn gweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer swyddi a phrentisiaethau i raddedigion sydd â sgiliau yn y Gymraeg yn y cyngor.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Ddim yn berthnasol
Effaith ar ôl Lliniaru	Da

Cynhwysiant (yn cynnwys Cyfathrebu ac Ymgysylltu)

Effaith *	Ddim yn berthnasol
Cyfradd effaith *	Dewiswch eitem
Mesurau Lliniaru	Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun.
Effaith ar ôl Lliniaru	Dewiswch eitem

Atal ℹ

Effaith *	Byddwn yn gwella diogelu trwy gydweithio â phartneriaid i sicrhau ein bod yn bodloni gofynion strategaeth Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal yn eu hiaith gyntaf. Wrth wraidd hyn mae'r Cynnig Gweithredol, sy'n rhoi cyfrifoldeb arnom ni i gynnig gwasanaeth Cymraeg yn lle bod rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth ofyn amdano. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i blant, rhieni, oedolion sy'n agored i niwed, a gofalwyr drafod eu hanghenion a deall beth sy'n digwydd iddyn nhw. Bydd dilyn y Cynnig Gweithredol yn arwain at ddealltwriaeth fwy cywir o anghenion clinigol ac yn osgoi camddealltwriaeth a chamddiagnosis. Efallai na fydd gan rai defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg yr eirfa na'r hyder i drafod eu hanghenion yn Saesneg. Neu efallai eu bod yn ei chael hi'n anodd gwneud hynny ar adegau o ofid, straen a salwch.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Drwy lynu'n llawn at y Safonau ar gyfer darparu gwasanaethau, bydd siaradwyr Cymraeg yn llai tebygol o deimlo'n rhwystredig na allant geisio gwasanaethau Cymraeg yn hawdd ac yn brydlon. Byddwn yn gwybod ein bod yn atal problemau drwy gynyddu'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau cwsmeriaid Cymraeg, megis galwadau ffôn yn Gymraeg i'n prif linell gwasanaethau i gwsmeriaid a'n llinellau cymorth. Hefyd nifer y weithiau yr oedd pobl yn edrych ar dudalennau Cymraeg ein gwefan gyhoeddus. Byddwn yn grymuso trigolion ac ymwelwyr i ofyn am fwy o wasanaethau Cymraeg a'u defnyddio.
Effaith ar ôl Lliniaru	Da

Integreiddio ℹ

Effaith *	Mae'r strategaeth hon yn cefnogi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) y cyngor ar gyfer 2022 i 2032, er nad yw'n cynnwys ei gamau gweithredu i osgoi dyblygu. Mae'r strategaeth hon hefyd yn cyd-fynd â Mwy na Geiriau. Rydym yn monitro hyn drwy ein grŵp mewnol, 'Gofal: Welsh in care promotion group'. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, a PAVO (Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys). Mewn cyfarfodydd chwarterol rydym yn trafod sut y gallwn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol drwy gydweithio a rhannu adnoddau.
Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Byddwn yn annog pobl i ddewis darpariaeth Gymraeg y Blynyddoedd Cynnar i blant ym mhob un o'r 13 ardal ym Mhowys. Trwy hyn bydd mwy o ymgysylltiad cynhwysol.
Effaith ar ôl Lliniaru	Da

5b. Effaith ar y Gweithlu ℹ

Effaith *	Bydd angen i'n holl staff gwblhau modiwl hyfforddi ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y flwyddyn ariannol 2027-2028. Bydd staff yn cael mwy o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau iaith drwy grwpiau sgwrsio Cymraeg anffurfiol a gynhelir yn Neuadd y Sir a thrwy Teams. Byddwn yn datblygu adnoddau Cymraeg i gynorthwyo staff mewn sefyllfaoedd gwaith ymarferol megis ysgrifennu negeseuon e-bost, ateb y ffôn, a chroesawu cwsmeriaid. Bydd gwneud y modiwl hwn yn orfodol yn effeithio ar amser staff ond o ganlyniad bydd torri'r Safonau'n llawer llai tebygol gan y bydd staff yn deall y rhesymau dynol a chyfreithiol dros gydymffurfio. Byddwn yn annog rheolwyr i ddefnyddio mwy o Gymraeg wrth ymwneud â staff yn eu gwaith beunyddiol. Bydd angen i staff sy'n gweithio mewn canolfannau gwasanaethau i gwsmeriaid fedru delio ag ymholiadau yn Gymraeg gan cwsmeriaid. Byddwn yn rhoi hyfforddiant iddynt wneud hyn.

Cyfradd effaith *	Da
Mesurau Lliniaru	Byddwn yn sicrhau y gallwn gynnig yr hyfforddiant hwn mewn ffordd hyblyg yn unol ag anghenion gweithredol a threfniadau gweithio. Byddwn yn rhoi crynodeb o'r negeseuon allweddol i reolwyr llinell ac arweinwyr tîm y gallant eu cynnwys mewn sesiynau briffio tîm ar gyfer staff nad ydynt yn defnyddio gliniaduron. Byddwn yn ei gwneud yn haws i staff gael mynediad at ganllawiau ar gydymffurfio â'r Safonau drwy ein hwb Cymraeg newydd ar ein mewnrwyd staff.
Effaith ar ôl Lliniaru	Da

5c. Effaith y Gymraeg ar Staff ℹ

Effaith *	Nod y strategaeth yw cynyddu canran ein staff sy'n gallu cynnal sgwrs yn Gymraeg fel y bydd yn cynrychioli canran siaradwyr Cymraeg Powys yn well, sef 16%. Rhaid i reolwyr ystyried gofynion y Gymraeg wrth asesu anghenion a gofynion swyddi newydd a gwag yn unol â'r Safonau. Bydd y cynnig yn cynyddu cyfleoedd i staff ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth i reolwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth wneud defnydd o'r iaith yn rhan feunyddiol o'n harferion gwaith. Byddwn yn annog mwy o staff a chynghorwyr i gofrestru ar gyrsiau Cymraeg gyda darparwyr rhanbarthol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Byddwn hefyd yn hyrwyddo gair/ymadrodd yr wythnos gan gydweithio â PAVO drwy e-bost mewnol i'r holl staff a chynghorwyr. Bydd yn cynnwys recordiad i gynorthwyo ynganu. Bydd y strategaeth hon yn sicrhau y byddwn yn ymdrin â chwynion a materion disgyblu yn ddwyieithog os dymunir hynny o dan ddyletswyddau cyfreithiol y Safonau.
Cyfradd effaith *	Da

Mesurau Lliniaru	Bydd digideiddio ein system ar gyfer cofnodi a thracio staff sy'n mynychu cyrsiau dysgu Cymraeg yn ei gwneud yn haws nodi'r rhai a fynychodd gyrsiau o'r blaen ond sydd ddim wedi parhau. Gallwn wedyn eu hannog i ddechrau dysgu eto. Bydd y system yn ei gwneud yn haws i ni arolygu staff sydd wedi cofrestru ar gyrsiau dysgu Cymraeg i ofyn a ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith beunyddiol a pha mor aml. Os nad ydynt, byddwn yn nodi'r rhesymau pam ac yn cynnig cefnogaeth i wella hyn. Byddwn yn cynnal grwpiau sgwrsio Cymraeg wyneb yn wyneb dros baned a chinio yn Neuadd y Sir. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i staff a chynghorwyr ddefnyddio a datblygu eu Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol.
Effaith ar ôl Lliniaru	Da

5d. Effaith ar Brentisiaethau

Effaith *	Dim
Cyfradd effaith *	Dewiswch eitem
Mesurau Lliniaru	Ddim yn berthnasol
Effaith ar ôl Lliniaru	Dewiswch eitem

5e. Tystiolaeth

Ffigurau Cyfrifiad 2021. Y canlyniad arfaethedig yw y bydd 16.2% o drigolion Powys yn gallu siarad Cymraeg erbyn diwedd y strategaeth hon yn 2030. Ond ni allwn ddefnyddio data'r cyfrifiad i benderfynu a ydym wedi cyflawni'r targed yna gan na fydd ffigurau'r cyfrifiad nesaf ar gyfer y Gymraeg yn cael eu rhyddhau tan 2032 neu 2033. Rydym yn cytuno â Chomisiynydd y Gymraeg sy'n dweud mai'r cyfrifiad yw'r ffynhonnell ddata orau. Gallem ddefnyddio ffynonellau eraill megis yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a fydd ar gael erbyn diwedd y Strategaeth yn 2030. Ond nid yw hwn mor ddibynadwy â'r cyfrifiad ac ni fyddem yn cymharu ffigyrau cyffelyb. Bydd angen cafeat felly.

Ffynonellau eraill: Mwy na Geiriau, Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
Arolwg o'n staff sy'n siarad Cymraeg

6. Tebygolrwydd a Risg ❶

* Gofynnol

Risg 1

Risg 1					
Byddai methu â mabwysiadu'r Strategaeth Hybu hon yn arwain at ddiffyg cydymffurfio â'r Safonau. Byddai hyn yn arwain at niwed i enw da'r Cyngor, dirwyon, ac ymchwiliad posibl gan Gomisiynydd y Gymraeg.					
Sgôr tebygolrwydd	5	**Sgôr effaith**	4	**Cyfradd risg**	20
Mesurau Lliniaru					
Dim. Mae cyhoeddi Strategaeth Hybu'r Gymraeg ddiwygiedig yn ofyniad cyfreithiol o dan y Safonau.					
Tebygolrwydd ar ôl Lliniaru	5	**Effaith ar ôl Lliniaru**	4	**Risg ar ôl Lliniaru**	20

Risg 2					
Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun					
Sgor tebygolrwydd	Dewiswch eitem	**Sgor effaith**	Dewiswch eitem	**Cyfradd risg**	The risk rating will be automatically calculated when the document is completed
Mitigation					
Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun					

Tebygolrwydd ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem	**Effaith ar ol Lliniaru**	Dewiswch eitem	**Risg ar ol Lliniaru**	The residual risk rating will be automatically calculated when the document is completed

Risg 3					
Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun					
Sgor tebygolrwydd	Dewiswch eitem	**Sgor effaith**	Dewiswch eitem	**Cyfradd risg**	The risk rating will be automatically calculated when the document is completed
Mitigation					
Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun					
Tebygolrwydd ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem	**Effaith ar ol Lliniaru**	Dewiswch eitem	**Risg ar ol Lliniaru**	The residual risk rating will be automatically calculated when the document is completed

Risg 4
Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun

Sgor tebygolrwydd	Dewiswch eitem	**Sgor effaith**	Dewiswch eitem	**Cyfradd risg**	The risk rating will be automatically calculated when the document is completed

Mitigation
Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun

Tebygolrwydd ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem	**Effaith ar ol Lliniaru**	Dewiswch eitem	**Risg ar ol Lliniaru**	The residual risk rating will be automatically calculated when the document is completed

Risg 5
Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun

Sgor tebygolrwydd	Dewiswch eitem	**Sgor effaith**	Dewiswch eitem	**Cyfradd risg**	The risk rating will be automatically calculated when the document is completed

Mitigation
Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun

Tebygolrwydd ar ol Lliniaru	Dewiswch eitem	**Effaith ar ol Lliniaru**	Dewiswch eitem	**Risg ar ol Lliniaru**	The residual risk rating will be automatically calculated when the document is completed

7. Crynodeb a dyfarniad ar yr Asesiad

Asesiad Amlinellol *

Mae effaith gyffredinol y cynnig hwn yn dda, gan y byddai'n cefnogi nod y cyngor i sicrhau bod mwy o blant yn derbyn addysg Gymraeg, gan greu siaradwyr Cymraeg hyderus. Bydd hyn yn cyfrannu at strategaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd y cynnig hwn hefyd yn cryfhau'r gwasanaethau i gwsmeriaid rydym yn eu cynnig yn Gymraeg. Bydd hyn yn arwain at lai o gwynion gan gwsmeriaid ac ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd yn sicrhau bod modd i breswylwyr gyrchu wasanaethau Cymraeg yn gyflym ac yn ddidrafferth. Bydd y cynnig yn cynyddu canran y staff sy'n dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith beunyddiol.

Bydd annog busnesau, y sector gwirfoddol a sefydliadau cymunedol i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn gwneud yr iaith yn fwy gweladwy ym mywyd cymunedol.
Mae gan y strategaeth gamau gweithredu i annog mwy o rieni newydd a darpar rieni i ddewis addysg Gymraeg i'w plant. Bydd yn sicrhau bod plant mewn ysgolion uwchradd Cymraeg yn gallu defnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi drwy gael mynediad cyfartal i weithgareddau datblygu ieuenctid a chwaraeon yn Gymraeg. Bydd mwy o gyfleoedd gyrfa i siaradwyr Cymraeg gyda ni hefyd wrth i ni geisio cynyddu canran ein staff sy'n gallu siarad Cymraeg.

8. Tystiolaeth Ychwanegol

Ddim yn berthnasol

9. Trefniadau monitro * ❶

Mae'r strategaeth yn cynnwys cynllun gweithredu gyda thargedau CAMPUS sydd wedi'u cymeradwyo gan Banel Llywodraethu'r Gymraeg - ein grŵp craffu mewnol ar faterion y Gymraeg. Bydd y strategaeth yn eitem sefydlog ar gyfarfodydd chwarterol y Panel lle byddwn yn monitro cynnydd ar gamau gweithredu penodol. Bydd Swyddog y Gymraeg a Chadeirydd Panel Llywodraethu'r Gymraeg yn cyfarfod rhwng cyfarfodydd chwarterol i adolygu cynnydd y strategaeth a nodi rhwystrau yn gynnar. Bydd Swyddog y Gymraeg yn hysbysu Rheolwr y Gymraeg a Chyfathrebu am unrhyw rhwystrau i'r gwaith.

Byddwn hefyd yn monitro cynnydd drwy'r adroddiad monitro statudol blynyddol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg.

Dyddiad Adolygu *	22/10/2025

10. Cymeradwyo

Nawr gallwch gau'r ddogfen Word yma, a dychwelyd i'r Ap, neu ail-agor yr Ap drwy glicio yma. O'r Ap, bydd angen ichi gymeradwyo'r Asesiad Effaith. Gellir gwneud hyn yn yr adran 'Rheoli Asesiadau'. Dewiswch yr Asesiad Effaith rydych am ei nodi fel 'cyflawn', ac wedyn bydd yr Ap yn ei anfon yn awtomatig at y Pennaeth Gwasanaeth dan sylw.

Gallwch weld statws cymeradwyo cyfredol y ddogfen isod, ond dim ond yn yr Ap y gellid ei gymeradwyo.

Cymeradwywyd gan yr awdur	Sion Rowley
Cymeradwywyd gan y Pennaeth Gwasanaeth	Catherine James
Cymeradwywyd gan yr Aelod Cabinet ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol	Y Cynghorydd Sandra Davies